Glain Elena

*Blwyddyn 13*

*Morus*

***<u>Panad?</u>***

‘Panad?’ hola Martha’n groesawgar i Mr Watkins, ei gwr, fel mae hi’n ei wneud yn ddyddiol wrth iddi ymestyn ei llaw crebachlyd i roi’r tegell i ferwi. Cariad ifanc sydd gan Glyn a Martha, cariad cyn gryfed a charn. Syrthion nhw dros eu pen a’u clustiau mewn serch pan y neu harddegau, ac yn dal deimlo cariad pur hyd at heddiw. Byw'n hamddenol y maent, yn sbecian o ddifri drwy’r llenni tamp, patrymog ac yn claddu eu trwynau ym mhapur y ‘Daily Post’, gan sglaffio ar fisged Bourbon... neu ddwy! Eistedda'r radio oedrannus gyda’r erial wedi’i blygu i bob siâp er mwyn cyrraedd signal, ar y ddresel yn dwt, wrth i radio Cymru barablu ymlaen yn y cefndir er mwyn adrodd y newyddion diflas diweddaraf.

Roedd llonyddwch ar stryd Y Felin y bore hwnnw, fel pob bore arall, i ddweud y gwir. Pawb wedi’i heglu i'w gwaith, gan stwffio’u bocsys bwyd yn seddi blaen eu ceir, a’r plant bach yn gwneud eu ffordd i'r ysgol yn eu bagiau a’u cotiau patrymog. Gwelir ambell i gath fan hyn ac fan acw, yn troedio'r palmantau’n erfyn am damaid i'w fwyta. Roedd pob enaid wedi ymadael, i fyw eu bywydau cyffroes, tra bod yr hen gwpwl yn edrych ymlaen yn eiddgar tuag at uchafbwynt eu diwrnod, i wylio ‘Pobl y Cwm’, nes ymlaen, gan ddal eu paneidiau efo'i dwylo gwan, esgyrnog, wedi'i gorchuddio a gwythiennau.

Estynnodd Martha fag te yr un a oedd wedi hen basio eu dyddiad, i fewn i gwpanau Tsiena bregus. Arllwysodd ddŵr i fewn, ac yna ryw ddau neu dri llwyed o siwgr, er nad oedd yn llesol i'w hiechyd. Agorodd y ffrij, gan gael ei chroesawi gan còg o gaws wedi llwydo, ac ambell i domato toeslyd. Estynnodd am y botel laeth wydr o gefn yr oergell, gyda’i dwylo crynodedig. Llifai'r llaeth yn lympiau i fewn i'r te, gan adael gwaddod ewynnog ar ôl. Gwegiodd tuag at y cwpwrdd gan ymestyn ei chymalau gwantan, i gadw'r siwgr lwmpiog yn ôl yn ei briodol le, fel pob tro arall. Mae ei chof yn syndod, a dweud y gwir. Sleidiodd y drws yn glep ar ei hol, gan sleifio’i sliperi drwy drwch o fudreddi.

Llychiodd Martha ei hun ar y gadair siglo, gan dyrchan am y teclyn teledu i weld pa rwtsh sydd ymlaen. Roedd Glyn y gwr, yn eistedd yn union fel Brenin yn ei gadair lledorwedd, yn chwyrnu fel twrch, yn hapus ei fyd. Y hi oedd yn gwneud y golchi, coginio, glanhau. Y hi oedd yn mynd allan i'r siop i nol nwyddau sylfaenol. Y hi oedd yn rhedeg y sioe, tra ei fod yn aros am ei bryd nesaf.

Roedd hi’n brynhawn oeraidd ym mis Hydref, pump o’r gloch, ac yn ddu bitsh. Y gwynt yn chwythu’n llawn gwylltineb, wrth i'r coed siglo o un ochr ir llall yn ddi-beidio. Crynodd y ddau yn eu seddi’n gweddïo am gynhesrwydd yr haf. Roedd y lleuad llawn yn symbol o obaith, yn sbecian i fewn drwy’r llenni i‘w cysuro. Cododd Martha o’i chadair i fusnesa ar ryfeddodau’r stryd.

“Pwy ‘di hwna? Be ma’n neud ‘ma? ‘Rhen Saeson na di nw siŵr o fod, ‘snâm Cymry yma bellach, ‘mond Jen drws nesa a ninnau de? Gwarth.” Ysgwyda Martha ei phen yn gadarn. Hoff o gwyno y mae hi, beth arall sydd i‘w wneud, ynde? Roedd plant ar gefnau eu beics yn crwydro fyny’r stryd heb unrhyw ofal yn y byd.

‘O, am gael bod yn blentyn eto’. Ochneidiodd Martha, yn disgwyl i'w gwr gytuno. Atebodd o ddim. Mewn gwirionedd, doedd dim llawer i'w weld ar y stryd. Yn y pellter, fe welir olau car yn gwneud ei ffordd yn ôl i'r pentref. Pell, pell i ffwrdd.

Dyma oedd realaeth ei bywyd. Codi am wyth, mynd lawr staer i wneud paned ac ambell i dost a jam, eistedd ar ei chadair siglo’n pendroni, gan wylio ychydig o deledu. Dim byd diddorol I'w ddweud nac ei wneud. Am ddiflas. Fe gafodd blentyndod hapus a chyffrous, yn byw ar ffarm ei rhieni, yn bwydo’r

gwartheg a chwarae yn y caeau ŷd efo'i chwiorydd. Bwyta llond ei bol o uwd yn y bore er mwyn cael digon o egni i bara drwy dydd yn yr ysgol. Roedd hwyl I'w gael ers talwm, ond dim bellach.

Tic-toc. Tic-toc. Ticiodd fysedd y cloc yn hygar uwchben tanllwyth o dân cysurus, sydd yn gwmpeini i'r ddau, wrth i awr arall fynd yn ei flaen. Eiliadau yn troi'n funudau, munudau'n troi yn oriau, oriau'n troi yn ddyddiau. Fframia'r aelwyd gan luniau melynaidd, unlliw gan adlewyrchu'r atgofion melys a fu. Safai res o lestri gwerthfawr, sydd wedi'i hetifeddu o genhedlaeth i genhedlaeth. Pob un ohonynt yn drysor ac yn adrodd storïau lu. Roeddent fel aelod arall I'r teulu, roeddent yn rywbeth i'w caru.

Amser swper. Estynnodd yr hen wraig ddau din llychlyd o 'Heinz Tomato Soup' a'i roi yn y microdon I'w gynhesu, llai o drafferth na'i gynhesu ar y ffwrn. Tywys ei breichiau gwan tuag at y bin bara, gan stwffio'i dwylo sigledig i fewn i'r bag er mwyn dod o hyd i dafelli wedi llwydo, ac bellach wedi caledu.

'O Duw, mi fydd o'n iawn ar ôl ei foddi mewn 'Tomato Soup', yn bydd?' ymbilodd am ateb gan ei gwr, unwaith un rhagor. Eistedda Glyn yn larp ar ei gadair, yn gaeth i'r sgwaryn o'i flaen.

****

Roedd y baned yn oer. Ni cyffyrddodd neb ynddi...erioed. Tyfodd lwydni o amgylch ymyl y mwg, gan adael y te'n anyfadwy. Dagrau. Roedd y crychau ar eu bochau'n atal y defnynnau i lifo'n esmwyth. Teimla ei gwddf yn tynhau, wrth iddi gymryd mewnlif sydyn o anadl. Gorchuddiodd ei gwyneb a'u dwylo esgyrnog. Crynodd ei gên fel dalen, wrth iddi grebachu ei chefn, a chwympo'n drwm I'r llawr. Roedd ei thorso bellach ar ei hyd yn ddisymud. Llifodd yr atgofion yn ôl yn hunllefus.

Roedd Glyn wedi hên adael...